



Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol
The National Community College

Rhif Cwmni 03109524 Rhif Elusen 1071234

**GORCHMYNION SEFYDLOG, RHEOLAU A GWEITHDREFNAU
ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES
("YR ELUSEN")**

Cymeradwywyd a Mabwysiadwyd ar 26 Mawrth 2020

[I'w darllen ar y cyd ag Erthyglau Cymdeithasu'r Elusen (yr 'erthyglau')]



DIFFINIADAU A DEHONGLI

Bydd gan dermau a ddiffinnir yn yr **erthyglau** yr un ystyr yn y **Gorchmynion Sefydlog**, Rheolau a Gweithdrefnau hyn.

AELODAETH A THANYSGRIFIADAU

1) Caiff y **Cyngor**, yn ôl ei lwyr ddisgresiwn, dderbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad fel **aelod**.

2) Bydd **aelod** sy'n gorff corfforedig yn penodi cynrychiolydd, y bydd ganddo hawl yn ystod cyfnod ei benodiad i arfer yr holl gyfryw hawliau a phwerau mewn unrhyw **gyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** o'r **Elusen** ag y byddai'r corff corfforedig yn eu harfer pe byddai'n unigolyn unigol. Bydd cadarnhad o'r cyfryw benodiad gan yr **aelod-sefydliad** yn cael ei anfon at yr **Ysgrifennydd**.

3) Bydd **blwyddyn** danysgrifio'r **Elusen** am 365 o ddiwrnodau o'r diwrnod y derbynnir taliad **aelodaeth** neu gais am **aelodaeth**.

4) Caiff y **Cyngor** osod a chymhwyso graddfa wahanol o daliadau ar gyfer pob dosbarth **aelodaeth**. Y raddfa taliadau blynyddol sydd mewn grym ar hyn o bryd yw:

Unigolion - Cyflogedig: £10; Difyflog: £4.

Unigolion: **aelodau** sy'n ddysgwyr - Rhad ac am ddim ar gyfer y flwyddyn **aelodaeth** gyntaf.

Canghennau - £20, fel ffi enwol.

Sefydliadau Cyswllt a Phartner - Cenedlaethol: £50; Lleol: £10; neu daliad cyfatebol mewn nwyddau os yw'r **Llywodraethwyr** yn cytuno.

Fforymau Dysgwyr - dim ffi.

5) Ni fydd yn ofynnol i **gynrychiolydd awdurdodedig Cangen**, **Sefydliad Cyswllt a Phartner** neu **Fforwm Dysgwyr** dalu unrhyw danysgrifiad blynyddol personol.

6) Ystyrir bod gan unrhyw **aelod** neu **aelod-sefydliad** ôl-ddyledion os nad yw wedi talu'r tanysgrifiad priodol o fewn tri (3) mis ar ôl iddo ddod yn ddyledus.

7) Bydd unrhyw **aelod** neu **aelod-sefydliad** sydd ag ôl-ddyledion yn peidio â bod â hawl i fuddion aelodaeth yn awtomatig, gan gynnwys:

- Yr hawl i alw am **gyfarfod cyffredinol arbennig**;
- Yr hawl i gyflwyno penderfyniad i'w ystyried mewn **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig**;
- Yr hawl i fynychu a/neu bleidleisio mewn **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig**, boed hynny'n bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** neu drwy ddirprwy;
- Yr hawl i gael rhybudd o'r cyfryw **gyfarfodydd cyffredinol**;

oni bai bod y **Cyngor** yn penderfynu caniatáu'r cyfryw hawliau i'r **aelod**.

DILEU AELODAETH

8) Os terfynir **aelodaeth** trwy benderfyniad gan y **Cyngor**, mae'n rhaid i'r **Ysgrifennydd** roi gwybod i'r **aelod** yn ysgrifenedig am benderfyniad y **Cyngor** i ddileu ei **aelodaeth** o fewn saith (7) **diwrnod** o'r penderfyniad.

9) Os yw'r **Cyngor** yn penderfynu y dylai **aelod** gael ei ddileu, bydd y penderfyniad yn derfynol a bydd yr **aelod** yn peidio â bod yn **aelod** o ddyddiad penderfyniad y **Cyngor**.

TRAFODION MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL BLYNYDDOL A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL ARBENNIG

10) Nid oes hawl gan **Aelodau** sydd hefyd yn **gyflogeion** yr **Elusen** i bleidleisio ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u tâl na'u hamodau gwasanaeth. Os oes ansicrwydd ynglŷn â hawl unigolyn i bleidleisio, bydd **cadeirydd y cyfarfod** yn penderfynu ar y mater. Bydd unrhyw ddyfarniad gan **gadeirydd y cyfarfod** yn derfynol.

11) Bydd gan unrhyw **aelod** unigol o'r **Elusen** a enwebwyd i gynrychioli **Cangen** neu grŵp arall a sefydlwyd o dan erthygl 13 yr hawl i ail bleidlais neu bleidlais ychwanegol fel cynrychiolydd **Cangen** neu grŵp arall.

12) Yn unol ag erthygl 17, mae angen i benderfyniadau sy'n ymwneud â diwygiadau i'r **erthyglau** hynny, gan gynnwys newid enw'r **Elusen**, gael mwyafrif o 75% o'r unigolion sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio mewn **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig**, a alwyd ac a gynhaliwyd yn unol â darpariaethau'r **erthyglau** a darpariaethau'r **Deddfau Cwmniâu**.

13) Os yw'r bleidlais ar unrhyw fater yn gyfartal, ystyrir bod y penderfyniad wedi'i golli.

14) Heblaw fel y caniateir yn benodol o dan erthygl 9.5, ni cheir cynnal unrhyw fusnes mewn **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** hyd nes bod cworwm yn bresennol.

15) Bydd yr holl bleidleisio mewn **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** yn cael ei wneud trwy bleidlais gudd, neu drwy bleidlais gyhoeddus trwy godi papurau pleidleisio i fyny. Mae hyn heblaw am benodi craffwyr neu rifwyr, a fydd yn cael eu hethol trwy ddangos dwylo yn y cyfarfod.

16) Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd craffwyr neu rifwyr yn cael eu penodi i gynnal pleidleisiau cudd neu bleidleisiau cyhoeddus.

17) Bydd unrhyw bleidlais yn cael ei chynnal ar unwaith a bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

18) Tra bod pleidleisiau'n cael eu cyfrif, caiff y cyfarfod symud ymlaen i'r busnes nesaf, yn ôl disgrisiwn **cadeirydd y cyfarfod**.

19) Bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei gyhoeddi hyd yn oed os nad oes cworwm yn y cyfarfod mwyach ers i'r bleidlais gael ei chynnal.

AELODAETH Y CYNGOR

20) Ceir llenwi unrhyw swydd wag sy'n codi ar y **Cyngor**, boed hynny ymhlith lleoedd **Etholedig** neu'r rhai a **Benodir**, gan rywun a benodir gan y **Cyngor** (o'r categori **aelodaeth** briodol, os yw'n berthnasol) i ddal swydd tan y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** nesaf. Wrth wneud penodiadau o'r fath, cyfeirir at Egwyddorion Llywodraethu Da Nolan a'r categorïau Amrywiaeth a'r matrices Sgiliau ar gyfer **Llywodraethwyr** a geir mewn Atodiad i'r **Gorchmynion Sefydlog** hyn.

21) Mae'r **Cyngor**, ar ddyddiad cymeradwyo'r **Gorchmynion Sefydlog**, Rheolau a Gweithdrefnau diwygiedig hyn, yn cytuno â'r gweithdrefnau canlynol a fydd yn gweld hyd at ddeuddeg (12) o bobl yn cael eu hethol a hyd at wyth (8) o bobl yn cael eu penodi, fel y manylir yn erthygl 10.2. Bydd y Llywodraethwyr **Etholedig** a **Phenodedig** yn dal swydd am gyfnod o dair (3) blynedd ac, os cânt eu hailethol neu eu hailbenodi, bydd y cyfryw **Lywodraethwyr** yn gwasanaethu am un cyfnod arall o dair (3) blynedd. Fodd bynnag, caiff y **Cyngor** benodi **Llywodraethwyr Penodedig** am gyfnod o lai na thair (3) blynedd os yw'n penderfynu gwneud hynny er pennaf les yr **Elusen**.

22) Bydd y **Llywodraethwyr Etholedig** yn cynnwys y canlynol:

- hyd at chwech (6) o **Lywodraethwyr a Etholwyd** trwy'r **Fforymau Rhanbarthol**, un o bob Fforwm sydd wedi'i gyfansoddi ar hyn o bryd, trwy bleidlais bost neu electronig neu drwy ddangos dwylo mewn **Fforwm Rhanbarthol** a gynullwyd yn briodol. Bydd hyblygrwydd i ganiatáu newid i ffiniau daearyddol, ond nid o ran nifer gyffredinol y **Llywodraethwyr** a etholir felly petai nifer y rhanbarthau'n lleihau;
- bydd hyd at dri (3) yn **Ddysgwyr-lywodraethwyr, a Etholwyd** gan ac o blith **Dysgwyr, Canghennau** a **Fforymau Dysgwyr** trwy bleidlais bost neu electronig. Bydd unrhyw **Ddysgwr** sydd wedi'i gofrestru ar y gronfa ddata ar gyfer y flwyddyn academiaidd y cynhelir yr etholiad ynddi yn gymwys i gymryd rhan yn yr etholiadau fel ymgeisydd ac etholwr. Dylai pob **Dysgwr-lywodraethwr** ymddiswyddo yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** nesaf os yw'n peidio â bod yn **Ddysgwr**;
- bydd hyd at ddau (2) yn **Staff-lywodraethwyr, a Etholwyd** gan ac o blith y **Staff** trwy bleidlais bost neu electronig. Bydd un (1) o blith **cyflogeion** academiaidd, a bydd un (1) o blith **cyflogeion** cymorth busnes. Os na enwebir **cyflogai** academiaidd, mae'n dderbyniol ethol **ymgeisydd cymwys** o blith y **cyflogeion** cymorth busnes yn unig ar gyfer y **Llywodraethwr** hwnnw yn lle hynny. Bydd **Staff-lywodraethwr** yn ymddiswyddo ar unwaith pan fydd yn peidio â chael ei gyflogi gan yr **Elusen**. Ni fydd unrhyw aelod o **Staff** yn gymwys i sefyll am unrhyw rai o'r categorïau **Llywodraethwyr Etholedig** neu **Benodedig** eraill;

- bydd hyd at un (1) yn **Llywodraethwr a Etholwyd** gan ac o blith **aelodau** Unigol trwy bleidlais bost neu electronig.

Bydd y **Llywodraethwr Penodedig** yn cynnwys y canlynol:

- hyd at chwech (6) a benodwyd yn dilyn hysbysebu'r rôl **Llywodraethwr** yn agored gan y **Cyngor** a chymhwyso'n briodol Egwyddorion Llywodraethu Da Nolan a'r categorïau Amrywiaeth a'r matrices Sgiliau a geir mewn Atodiad i'r **Gorchmynion Sefydlog** hyn;
- hyd at ddau (2) **Llywodraethwr** a benodwyd o blith **Sefydliadau Cyswllt a Phartner yr Elusen** gan y **Cyngor**, gan ystyried Egwyddorion Llywodraethu Da Nolan a'r categorïau Amrywiaeth a'r matrices Sgiliau a geir mewn Atodiad i'r **Gorchmynion Sefydlog** hyn.

23) Bydd **Llywodraethwr** yn peidio â dal swydd yn awtomatig ar unwaith:

- (a) os yw'n cymryd neu'n dal unrhyw swydd sy'n dwyn elw o dan yr **Elusen**, sy'n golygu cyflogaeth gan yr **Elusen** am fwy na phedair (4) awr yr wythnos (heblaw am y **Staff-lywodraethwyr**);
- (b) os yw'n **gynrychiolydd awdurdodedig** unrhyw **Sefydliad Cyswllt a Phartner** sydd â hawl i enwebu unigolion i'r **Cyngor** ac mae ei gyfnod mewn swydd yn dod i ben neu'n cael ei derfynu gan yr **aelod-sefydliad**.

SWYDDOGION ETHOLEDIG

24) Bydd y **Cyngor** yn ethol y swyddogion, a fydd yn **Gadeirydd** ac **Is-gadeirydd**, o blith eu nifer yng nghyfarfod cyntaf y **Cyngor** ar ôl y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu'r **cyfarfod cyffredinol arbennig** lle y daw'r **erthyglau** i rym ac wedi hynny pan fydd y **Cadeirydd** a'r **Is-gadeirydd** yn peidio â dal y cyfryw swydd o bryd i'w gilydd. Caiff y **Cyngor** atal unrhyw swyddog neu swyddogion rhag gweithio ar unwaith ar yr amod bod y **Cyngor**, mewn unrhyw gyfarfod lle y penderfynir atal unrhyw swyddog rhag gweithio, hefyd yn penderfynu galw **cyfarfod cyffredinol arbennig** i ystyried p'un a ddylid diswyddo'r swyddog neu'r swyddogion.

25) Caiff y **Cyngor** benodi unrhyw aelod o'r **Cyngor** i lenwi unrhyw swydd pryd bynnag y caiff swyddog ei atal rhag gweithio.

PENODIADAU MYGEDOL

26) Caiff yr **Elusen**, o bryd i'w gilydd, ethol Llywydd Mygedol a hyd at bump (5) o Is-lywyddion, a enwebir gan y **Cyngor** i wasanaethu am gyfnod o dair (3) blynedd. Ceir ailethol Llywydd neu Is-lywyddion am gyfnodau ychwanegol.

GORCHMYNION SEFYDLOG FFORYMAU RHANBARTHOL



27) Bydd y **Fforymau Rhanbarthol**:

- yn rhoi cyfle i **aelodau** gyfarfod yn rhanbarthol, gan felly gryfhau'r mudiad gwirfoddol a darparu ar gyfer rhannu syniadau da a phrofiad;
- yn trafod materion sy'n achosi pryder ac ystyried penderfyniadau i'w cyflwyno i gynhadledd flynyddol yr **Elusen**, os oes un, ac i'w cyflwyno i'r **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig**;
- yn annog **aelodau** i ymuno â'r **Cyngor**; ac
- yn cael adroddiadau gan y **Cyngor**, er mwyn craffu ar gyfeiriadau strategol a chodi materion sy'n achos pryder.

Bydd aelodaeth **Fforymau Rhanbarthol** yn cynnwys:

- **aelodau** unigol sydd wedi'u lleoli yn y **Rhanbarth**;
- cynrychiolwyr o **Ganghennau** sydd wedi'u lleoli yn y **Rhanbarth** yn ôl nifer yr aelodau **Cangen** yn y flwyddyn academaidd dan sylw – dau (2) gynrychiolydd ar gyfer y pump ar hugain (25) o **aelodau** cyntaf, ac un (1) ar gyfer pob pump ar hugain (25) o **aelodau** ychwanegol neu ran ohonynt;
- dau (2) gynrychiolydd o unrhyw **Sefydliad Cyswllt a Phartner** sydd wedi'i leoli yn y **Rhanbarth**; a
- dau (2) gynrychiolydd o bob **Fforwm Dysgwyr** sydd wedi'i leoli yn y **Rhanbarth**.

Bydd **Fforymau Rhanbarthol** yn cyfarfod o leiaf dair (3) gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hwyluso gan **Staff**.

CYLLID A DATGANIADAU BLYNYDDOL

28) Bydd **blwyddyn ariannol** yr **Elusen** yn mynd o **ddiwrnod** cyntaf mis Awst mewn un flwyddyn i'r unfed ar ddeg ar hugain **diwrnod** o fis Gorffennaf yn y flwyddyn nesaf.

29) Bydd gan yr archwilydd allanol hawl i fynychu pob **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** a derbyn pob hysbysiad o'r cyfryw gyfarfodydd y mae gan **aelodau** hawl i'w dderbyn, a bydd ganddo'r hawl i siarad a chael ei glywed mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath ynglŷn â busnes y mae a wnelo ag ef neu hi fel archwilydd.

30) Bydd cyfrifon incwm a gwariant, mantolen, adroddiad archwilydd ac adroddiad **Cadeirydd** yr **Elusen** yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor cyn cael eu hanfon at yr **aelodau** drwy'r post neu, lle mae aelodau wedi cydsynio i dderbyn cyfathrebiadau trwy **gyfrwng electronig**, ar ôl postio ar wefan yr **Elusen**.

31) Bydd y **Cadeirydd** yn paratoi ac yn cyflwyno adroddiad i'r **cyfarfod cyffredinol blynyddol** ar sefyllfa'r **Elusen** sy'n cydymffurfio â gofynion y **Deddfau Cwmnïau**.

32) Bydd cadeirydd y **Pwyllgor Adnoddau** yn cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig a bydd cadeirydd y **Pwyllgor Archwilio** yn cyflwyno unrhyw ddatganiadau o bwys gan yr archwilwyr i'r **cyfarfod cyffredinol blynyddol** ar ran y **Cyngor**.

CYNNAL COFRESTRAU AC ARCHWILIO LLYFRAU

33) Bydd cofnodion drafft **cyfarfodydd cyffredinol blynyddol** a **chyfarfodydd cyffredinol arbennig** a chofnodion drafft cyfarfodydd y **Cyngor** a holl Bwyllgorau'r **Elusen** yn cael eu cadw yn y swyddfa gofrestredig a byddant ar gael i'w harchwilio gan **aelodau'r Elusen** yn ystod oriau swyddfa arferol ar gais ac yn rhad ac am ddim ar ôl cyfnod o un ar hugain (21) o **ddiwrnodau clir** ar ôl y cyfarfod y maent yn cyfeirio ato (oni bai bod y **Cyngor** yn penderfynu fel arall mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol o fusnes). Bydd y fantolen a'r cyfrif incwm a gwariant archwiliedig a llofnodedig ac adroddiad yr archwilydd ac adroddiad y **Cyngor** ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn cael eu cadw yn yr un modd. Fel arall, bydd gan unrhyw **aelod** yr hawl, ar gais, i gael o fewn saith (7) **diwrnod** o ddyddiad ei gais, ar yr amod bod y cyfnod a bennir uchod wedi mynd heibio, copi o unrhyw un o'r uchod ar ôl talu swm rhesymol i dalu am gost deunyddiau a llafur.

RHEOLAU AR GYFER ENWEBU AC ETHOL LLYWODRAETHWYR

34) Heb fod yn llai na phum deg chwech (56) o **ddiwrnodau clir** cyn dyddiad y **cyfarfod cyffredinol blynyddol**, bydd yr **Ysgrifennydd** yn anfon hysbysiad o ddyddiad y cyfryw gyfarfod at **aelodau** Unigol, **Canghennau**, **Sefydliadau Cyswilt a Phartner** a **Fforymau Dysgwyr**, a bydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer ethol i unrhyw leoedd ar y **Cyngor** sydd i'w llenwi yn y cyfarfod.

35) Dim ond **aelodau** mewn categori penodol a gaiff enwebu **ymgeiswyr cymwys** i'w hethol i'r lleoedd sy'n cynrychioli'r categori hwnnw ar y **Cyngor**, os yw'n berthnasol.

36) Mae'n rhaid i'r hysbysiad a anfonir sy'n gwahodd enwebiadau egluro'r categori neu'r categorïau y mae gan yr unigolyn sy'n derbyn yr hysbysiad hawl i enwebu **ymgeiswyr cymwys** iddo/iddynt. Mae'n rhaid i unrhyw enwebiad i'r **Cyngor** gael ei gynnig gan **aelod** sy'n gymwys i fynychu a phleidleisio ar y cyfryw benodiad yn y **cyfarfod cyffredinol**.

37) Mae'n rhaid i'r hysbysiad nodi'r dyddiad olaf i'r **Elusen** dderbyn enwebiadau dilys ar gyfer **ymgeiswyr cymwys** i'w hethol.

38) Bydd y dyddiad olaf i gyflwyno enwebiadau dilys ar gyfer **ymgeiswyr cymwys** i'w hethol wyth ar hugain (28) o **ddiwrnodau** cyn dyddiad y cyfarfod lle y bwriedir cynnal yr etholiadau.

39) Mae'n rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei llofnodi gan y cynigydd, naill ai ar gopi caled neu drwy lofnod electronig os yw'r ffurflen enwebu wedi cael ei hanfon i'r **Elusen** trwy **gyfrwng electronig**.

40) I fod yn **ymgeisydd cymwys**, mae'n rhaid i unigolyn gael ei enwebu'n briodol ac yn ddilys gan un unigolyn o leiaf, ond caiff unigolyn ei enwebu ei hun i'w ethol os yw'n unigolyn sydd â hawl i wneud yr enwebiad.

41) Bydd hysbysiad o'r **cyfarfod cyffredinol blynyddol** yn cael ei roi'n bersonol neu ei anfon drwy'r post dosbarth 1af neu 2il ddsbarth neu ei ddanfon i gyfeiriad hysbys diwethaf neu ei anfon ar **ffurf electronig** neu, lle mae **aelodau** wedi cydsynio i dderbyn cyfathrebiadau trwy **gyfrwng electronig**, ar ôl postio ar wefan yr **Elusen** at y rhai sydd â hawl i fynychu, a bydd yn cynnwys:

- (a) hysbysiad o'r unigolion sy'n **ymgeiswyr cymwys** i'w hethol, gan nodi'r swyddi y maent yn **ymgeiswyr cymwys** ar eu cyfer;
- (b) esboniad o'r weithdrefn bleidleisio; a
- (c) rhestr(au) o enwau'r **ymgeiswyr cymwys** a'r nifer briodol o bapurau pleidleisio i gyfateb i'r categorïau y mae gan yr **aelod** hawl i bleidleisio ynddynt.

42) Lle nad oes digon o enwebiadau o flaen llaw i lenwi unrhyw swyddi gwag ar y **Cyngor**, ceir derbyn enwebiadau yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol**. Lle mae nifer yr enwebiadau'n union gyfartal â nifer y swyddi gwag, ystyrir bod yr **ymgeiswyr cymwys** a enwebwyd wedi'u hethol heb bleidlais.

43) Defnyddir papurau pleidleisio ar wahân ar gyfer categorïau ethol ar wahân at ddibenion y gweithdrefnau hyn.

44) Bydd yr holl bapurau pleidleisio drwy'r post neu electronig (yn ôl y digwydd) wedi'u rhifo.

45) Bydd y **Cyngor** yn penodi o leiaf ddau (2) graffwr na fyddant yn **ymgeiswyr cymwys** i'w hethol nac yn swyddogion, ac a fydd yn gyfrifol am gadw papurau pleidleisio drwy'r post neu electronig (yn ôl y digwydd) yn ddiogel ac am gyfrif y pleidleisiau.

46) O ran etholiadau i swyddi ar y **Cyngor**, dim ond yr **aelodau** yn y categori **aelodaeth** perthnasol a gaiff bleidleisio dros gynrychiolwyr y categori **aelodaeth** hwnnw ar y **Cyngor**.

47) Ystyrir bod unrhyw bapur pleidleisio drwy'r post neu electronig lle nad oes pleidlais wedi'i chofnodi neu lle mae nifer y pleidleisiau yn fwy na'r nifer y mae gan yr unigolyn hawl iddynt wedi cael ei ddifetha.

48) Ar ôl y terfyn amser ar gyfer derbyn papurau pleidleisio drwy'r post neu electronig dilys, bydd y craffwyr yn cyfrif nifer y pleidleisiau ar gyfer pob **ymgeisydd cymwys** a nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd mewn perthynas â phob etholiad.

49) Bydd yr **ymgeisydd cymwys** â'r nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei ethol, gan ddefnyddio system y cyntaf i'r felin.

50) Bydd canlyniad unrhyw etholiad a gynhaliwyd yn cael ei gyhoeddi yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** a bydd **cadeirydd y cyfarfod** neu graffwr yn datgan nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros

bob **ymgeisydd cymwys** a nifer y papurau pleidleisio drwy'r post neu electronig a ddifethwyd mewn perthynas â phob etholiad.

51) Os bydd nifer gyfartal o bleidleisiau ar gyfer unrhyw swydd ar y **Cyngor** mewn categori penodol, cyhoeddir bod yr **ymgeiswyr cymwys** ar gyfer y lle arall neu'r lleoedd eraill ar y **Cyngor** wedi cael eu hethol. Bydd pleidlais drwy'r post neu bleidlais gudd neu bleidlais electronig ychwanegol yn cael ei chynnal yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** rhwng y rhai sy'n gyfartal â'i gilydd ar gyfer y swyddi wag.

52) Bydd y bleidlais ychwanegol o dan y Rheol flaenorol rhwng yr **ymgeiswyr cymwys** a gafodd yr un nifer o bleidleisiau.

DEHONGLI AC ATODLEN

'Pwyllgor Adnoddau'	yw Pwyllgor Adnoddau'r Elusen , fel y'i cyfansoddwyd yn unol ag erthygl 12.5;
'Pwyllgor Archwilio'	yw Pwyllgor Archwilio'r Elusen , fel y'i cyfansoddwyd yn unol ag erthygl 12.5;
'Sefydliadau Cyswllt a Phartner'	yw unrhyw sefydliad cenedlaethol neu leol (corfforedig neu anghorfforedig) sy'n cydymffurfio â phob un o'r canlynol: a) yn rhannu nodau ac amcanion yr Elusen ; b) yn cael ei dderbyn fel aelod gan y Llywodraethwyr ac yn ymddangos ar dudalen we'r Elusen sy'n rhestru ei Chysylltiadau a'i Phartneriaid; c) yn tanysgrifio trwy dalu ffi gyswllt flynyddol i'r Elusen , neu drwy wneud taliad cyfatebol mewn nwyddau y cytunwyd arno gan y Llywodraethwyr ;
'ymgeisydd/ymgeiswyr cymwys'	yw unrhyw unigolyn sy'n gymwys i gael ei ethol fel Llywodraethwr Etholedig yr Elusen o bryd i'w gilydd, p'un a yw'r cyfryw unigolyn yn aelod ar adeg ei enwebiad arfaethedig ai peidio.

ATODLEN CATEGORïAU AELODAETH A HAWLIAU PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL BLYNYDDOL, CYFARFODYDD CYFFREDINOL ARBENNIG A FFORYMAU RHANBARTHOL

Unigolyn	un (1) bleidlais yn bersonol neu drwy ddirprwy
----------	--

Cangen	dwy (2) bleidlais gan gynrychiolydd awdurdodedig neu ddirprwy ar gyfer y pump ar hugain (25) o aelodau cyntaf ac un bleidlais arall gan gynrychiolydd awdurdodedig neu ddirprwy ar gyfer pob pump ar hugain (25) o aelodau ychwanegol neu ran ohonynt
Sefydliad Cyswllt a Phartner	un (1) bleidlais gan gynrychiolydd awdurdodedig neu ddirprwy
Fforwm Dysgwyr	dwy (2) bleidlais gan gynrychiolydd awdurdodedig neu ddirprwy

ATODIAD

Categoriâu Amrywiaeth a matrices Sgiliau ar gyfer Llywodraethwyr

Categoriâu Amrywiaeth:

- | | |
|---|------------------------|
| * Rhywedd | * Iaith |
| * Ethnigrwydd | * Oedran |
| * Anabled | * Cyfeiriadedd rhywiol |
| * Rhanbartholdeb yng Nghymru | * Cefndir addysgol |
| * Profiad o anfantais gymdeithasol/economaidd | |

Ceisiwn adlewyrchu cefndiroedd addysgol amrywiol (gan gynnwys dysgwyr ail gyfle ac aeddfed) a chynnwys profiad o gymunedau dan anfantais.

Argymhellwn y byddai pennu cwotâu i'r categorïau uchod (heblaw am ranbartholdeb, efallai) yn rhy ragnodol. Fodd bynnag, bydd angen i ni fonitro'n ofalus ac, os bydd angen, cyflwyno mesurau rhagweithiol megis gweithredu cadarnhaol. Mae rhanbartholdeb yn fater allweddol ac mae'n rhaid i'r **Cyngor** sicrhau bod cydbwysedd rhanbarthol rhwng aelodau.

Matrics Sgiliau:

- | | |
|------------------------------------|----------------------------------|
| • Llywodraethu | • Addysg |
| • Cwricwlwm | • Cyllid |
| • Cyfrifyddu | • Personél/adnoddau dynol |
| • Cyfreithiol | • Safonau ansawdd a pherfformiad |
| • Marchnata/cysylltiadau cyhoeddus | • Sector gwirfoddol |
| • Undebau Llafur | • Busnes |
| • Technoleg Gwybodaeth | |

Mae'n rhaid i bob **Llywodraethwr** allu dangos tystiolaeth o ymrwymiad i nodau, gwerthoedd ac ethos yr **Elusen**.

Bydd archwiliad blynyddol yn cael ei gynnal o'r categorïau Amrywiaeth a'r matrices Sgiliau ar gyfer **Llywodraethwyr**. Bydd angen ymrwymo i lefel uchel o bresenoldeb a bydd hyn yn cael ei adolygu'n drwyadl.

